

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd	Fay Buckle
Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2016	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00	0300 200 6565
	SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru

(Cytunodd y Pwyllgor ar 8 Rhagfyr 2015 ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn).

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.00)

2 Papurau i'w nodi

(09.00 – 09.05)

(Tudalennau 1 – 3)

3 Cyflog Uwch-reolwyr: Y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor

(09.05–09.25)

(Tudalennau 4 – 19)

PAC(4)–01–16 Papur 1 – Argymhellion y Pwyllgor

PAC(4)–01–16 Papur 2 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

PAC(4)–01–16 Papur 2A – Datganiad Ysgrifenedig Gan Lywodraeth Cymru –

Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus

Datganoledig yng Nghymru (7 Rhagfyr 2015)

4 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(09.25–09.50)

(Tudalennau 20 – 41)

PAC(4)–01–16 Papur 3 – Llythyr gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

PAC(4)–01–16 Papur 4 – Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr



PAC(4)-01-16 Papur 5 - Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru

5 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Ystyried yr adroddiad drafft

(09.50-11.00)

PAC(4)-01-16 Papur 6 - Adroddiad Drafft

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

<http://senedd.tv/cy/3287>

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2015

Amser: 09.00 – 11.02

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Darren Millar AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Mike Hedges AC Sandy Mewies AC Julie Morgan AC Jenny Rathbone AC Aled Roberts AC Alun Ffred Jones AC (yn lle Jocelyn Davies AC)
Tystion:	Owen Evans, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru John Howells, Llywodraeth Cymru Christopher Munday, Llywodraeth Cymru James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Fay Buckle (Clerc) Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)



	Huw Vaughan Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru) Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru) Alistair McQuaid (Swyddfa Archwilio Cymru) Nick Tyldesley (Prisiwr Dosbarth)
--	---

1 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

1.1 Trafododd Archwilydd Cyffredinol Cymru PAC(4)-34-15 papur 1 (Eitem 4) â'r Pwyllgor.

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Esgusododd Jocelyn Davies ei hun o dan Reol Sefydlog 18.8. Dirprwyodd Alun Ffred Jones ar ei rhan.

1.3 Mae'r datganiadau o ddiddordeb a wnaed yn y cyfarfod ar 12 Hydref yn berthnasol i'r cyfarfod hwn.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

4 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Sesiwn Dystiolaeth 7

4.1 Yn rhan o'r ymchwiliad i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, craffodd y Pwyllgor ar Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus; James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol; John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio; a Christopher Munday, Dirprwy Gyfarwyddwr Atebion Busnes, Llywodraeth Cymru.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Blaenraglen waith: Ystyried y rhaglen waith ar gyfer gwanwyn 2016

6.1 Cytunodd yr Aelodau ar y flaenraglen waith.

7 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.

8 Craffu ar Gyfrifon 2014–15: Ystyried yr adroddiad drafft

8.1 Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, a chytuno arno.

Cyflog Uwch Reolwyr

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod diffiniad clir o'r hyn a olygir gan swydd uwch yn y sector cyhoeddus yn cael ei lunio a'i ddsbarthu gan Lywodraeth Cymru. Dylai hyn ystyried lefel y taliadau cydnabyddiaeth, graddfa'r sefydliad dan sylw a lefel cyfrifoldeb y deiliad swydd.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei gwaith yn ad-drefnu llywodraeth leol i ystyried yr opsiynau ar gyfer cyflwyno mwy o gysondeb o ran cyflogau uwch reolwyr mewn Llywodraeth Leol. Dylid cyhoeddi sail resymegol glir i sicrhau bod eglurder o ran sut y dylid pennu cyflogau mewn unrhyw strwythur newydd a gyflwynir. O ystyried y penderfyniadau diweddar gan rai cynghorau i ystyried uno gwirfoddol, dylid rhoi hyn ar waith ar unwaith. Hefyd, dylid cynnwys y broses o uno gwirfoddol wrth ystyried unrhyw strwythurau cyflog.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio a chyhoeddi geirfa mewn perthynas â chyflogau uwch reolwyr, sy'n nodi'r termau mwyaf priodol i'w defnyddio mewn datgeliadau cyflog, ynghyd ag esboniadau ar gyfer termau a ddefnyddir yn llai aml. Mae'r Pwyllgor yn argymhell hefyd fod naratif i gyfrifon yn cynnwys nodiadau digonol sy'n hawdd eu dehongli ac sy'n darparu esboniad clir o unrhyw sefyllfaoedd anarferol.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod eitemau sy'n ymwneud â materion cyflog yn cael eu rhestru'n glir ac ar wahân ar bob agenda. Gallai hyn olygu bod angen diwygio'r Rheoliadau

Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio).

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir i awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ffioedd Swyddogion Canlyniadau gael eu cyhoeddi mewn lle hawdd cael gafael arnynt ochr yn ochr â gwybodaeth am daliadau cydnabyddiaeth. Dylai hyn gynnwys esboniadau clir am yr hawl hwn.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, a chyrrff eraill sy'n cyhoeddi cyfarwyddiadau cyfrifon, yn adolygu mecanweithiau, gan gynnwys amodau grant, ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r datgeliadau cydnabyddiaeth, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar sut mae'n bwriadu sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio a dosbarthu canllawiau ar sut i reoli trefniadau cyflog ar gyfer cyd-benodiadau rhwng awdurdodau lleol, am fod cynnydd yn y mathau hyn o benodiadau. Dylai hyn gynnwys yr angen i ddatgelu'r cyflogau hyn yng nghyfrifon pob awdurdod lleol sy'n cyfrannu, ynghyd ag esboniad clir o lefel y cyfraniad yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfansoddiad a threfn recriwtio Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, wrth i swyddi ddod ar gael, i sicrhau ei fod yn cynrychioli cymdeithas sifil ehangach.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwybodaeth am bwyllgorau taliadau ledled y sector cyhoeddus a'u penderfyniadau'n cael eu cyhoeddi mewn lleoliad hygyrch ac amlwg ar wefan y sefydliadau.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau arfer da ar gyfer pwyllgorau taliadau yn nodi egwyddorion allweddol bod yn agored a thryloyw. Ochr yn ochr â'r canllawiau hyn, argymhellwn y dylid cynnal nifer o seminarau/sesiynau hyfforddi sy'n nodi'r egwyddorion hyn ac yn datblygu'r sgiliau pwysig

sydd eu hangen i fod yn aelod effeithiol o banel taliada.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau arferion gorau sy'n nodi'r ffyrdd gorau o ymgysylltu ag ymgynghorwyr allanol ynglŷn â chyflogau uwch reolwyr. Dylai hyn gynnwys yr angen i ryngweithio â'r grŵp perthnasol sy'n gwneud y penderfyniadau (er enghraifft, pwyllgor taliadau'r sefydliad) gydol y broses.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLILC a Swyddfa Archwilio Cymru i lunio canllawiau ar rôl uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol wrth ddarparu cyngor mewn perthynas â materion cyflog.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sectorau llywodraeth leol, addysg uwch, addysg bellach, iechyd a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i sicrhau bod hyfforddiant a chanllawiau ar gyflogau uwch reolwyr yn cael eu darparu'n gyson i bob sector.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn atgoffa awdurdodau lleol o bwysigrwydd ac annibyniaeth rôl swyddogion monitro, a'r angen i sicrhau bod y rôl hon yn gweithredu'n effeithiol ledled y sefydliad ar lefel uwch. Dylai hyn atgoffa'r swyddogion monitro hefyd sut i roi gwybod am unrhyw bryderon yn fewnol neu'n allanol os oes angen.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth i wahanol fecanweithiau cyflog, ac yn llunio adroddiad sy'n pennu'r hyn a ystyrir yn arfer da. Dylai hyn ystyried y ffordd orau o ymdrin ag uwch reolwyr mewn sefydliadau sy'n methu.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus nodi eu dull o ymdrin â chyflog ar sail perfformiad a rheoli doniau mewnol yn eu polisiau cyflog.

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru

yn cyhoeddi cyngor a chanllawiau i Sector Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y sectorau hynny sy'n derbyn arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru (e.e. landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, addysg bellach ac addysg uwch) ar y gofynion ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am daliadau a pholisïau cyflog, gan ystyried argymhellion yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth am nifer y gweithwyr sydd â phe cyn taliadau o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pob sefydliad yn sector cyhoeddus Cymru yn llunio adroddiad taliadau llawn bob blwyddyn, a'i fod yn cael ei gyhoeddi mewn lle amlwg ar wefan y sefydliad. Dylai hyn nodi'n llawn y wybodaeth ganlynol am yr holl uwch staff, gan roi ystyriaeth ddilys i argymhelliad blaenorol y Pwyllgor am sicrhau y gellir dehongli'r wybodaeth a gyhoeddir yn hawdd:

- cyflog;
- pensiwn;
- buddion mewn nwyddau;
- buddion di-dreth;
- pecynnau diswyddo;
- ffioedd Swyddogion Canlyniadau/ffioedd ychwanegol;
- y gymhareb gyflog rhwng cyflogau uchaf ac isaf swyddogion;
- cyfansoddiad rhyw yr uwch dîm.

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymhell ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad yn sector cyhoeddus Cymru gyhoeddi datganiad polisi cyflog, yn unol â'r gofynion ar Awdurdodau Lleol ac awdurdodau Tân ac Achub yn Neddf Lleoliaeth 2011.

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr holl wybodaeth am gyflogau sefydliadau'n cael ei chyhoeddi mewn un lle hawdd cael ato ar eu gwefan ac yn nodi'r wybodaeth yn glir ac yn dryloyw. I wneud hyn, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar fformat y datgeliad hwn. Credwn y bydd hyn yn sicrhau'r tryloywder gorau posibl ac atebolrwydd yn y pen draw.

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y gofynion hyn yn amod ar gyfer unrhyw grantiau neu gyllid a ddarperir i'r sefydliadau hynny na ellir eu dosbarthu'n llwyr i'r sector cyhoeddus (e.e. landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, darparwyr addysg bellach ac addysg uwch).

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn coladu'r wybodaeth am gyflogau uwch reolwyr ledled sector cyhoeddus Cymru yn unol â'r wybodaeth a gyhoeddir gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynnwys y sectorau hynny sy'n derbyn arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru (e.e. landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, addysg bellach ac addysg uwch) yn flynyddol a chyhoeddi hyn ar ei gwefan.

Sir Derek Jones KCB
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar
Public Accounts Committee Chair
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Dear Darren,

30th November 2015

Public Accounts Committee Report: Senior Management Pay

Thank you for your letter of 30 September in which you asked for an update on the implementation of the recommendations made in the Public Accounts Committee's Report on Senior Management Pay. The Welsh Government made a commitment to work towards full implementation of the recommendations and I am pleased to report that good progress has been made.

As outlined in the initial response to the Report, the Welsh Government has sought to implement the recommendations in two areas – through Local Government reform and by increasing the consistency and transparency of reporting of senior pay in the public sector. The progress made in respect of these areas is covered below.

Local Government Reform and Public Services Staff Commission

Work to implement the recommendations concerning the consistency with which senior management pay in Local Government is set, managed and communicated has been taken forward as part of ongoing work in local government reform and the establishment of a non statutory Public Services Staff Commission. The non statutory Public Services Staff Commission is now in existence and the Minister for Public Services made statements to the Assembly confirming appointments (of the Chair on 24 July and of members on 9 September plus a more general update as part of his oral statement on Public Workforce matters on 15 September). The Commission held its first meeting on 16 September.



As your letter indicated, it is important that stakeholders are engaged in the development of the proposed work programme. The Workforce Partnership Council met the Commission on 8 October as part of that process and the Chair and Commission members have been meeting stakeholders and stakeholder groups in the first few weeks of their existence.

The Minister for Public Services will issue a formal remit letter to the Commission shortly taking account of the views expressed through engagement with stakeholders, in particular through the Workforce Partnership Council as the Government's formal social partnership forum. As part of the development of its Operational Plan, the Commission has been considering how it can engage most effectively with the breadth of its stakeholders. The Workforce Partnership Council will consider the Commission's draft Operational Plan in December.

In addition to the establishment of the non statutory Public Services Staff Commission, the role of the Independent Remuneration Panel was extended to include Chief Executives of Local Authorities in the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013. The Local Government (Wales) Act 2015 includes provisions which extend this role further to include senior managers in existing Local Authorities. This will help ensure consistency amongst Local Authorities pending structural changes arising from and, subject to the passage of, the Local Government (Mergers and Reform) Bill. Providing advice on how fairness and consistency in pay in Local Government can be achieved through Local Government reform will be part of the role of the Public services Staff Commission, in conjunction with the Independent Remuneration Panel as necessary.

The Government has legislated to ensure that items pertaining to pay matters are listed clearly and separately on all agendas through the Local Democracy (Wales) Act 2013, the guidance on pay policy statements and the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) (Amendment) Regulations 2014. If further legislative amendments are required, we will undertake these in line with the timetables for the wider programme of local government reform.

The Local Government (Wales) Act 2015 was passed by the Assembly on 20 October 2015 and further strengthens openness and transparency on the role of senior officers in Local Authorities in providing advice on pay matters. As the Reforming Local Government Programme progresses we will continue to keep in view any need for extra guidance to be issued to Local Authorities. Information pertaining to Returning Officers' fees is routinely published in Local Authorities' accounts. The guidance on the Audit and Accounts regulations which we anticipate issuing next year will be reviewed and any necessary amendments will be made. Similarly, the Order governing Returning Officers' fees for the Assembly elections next year will be tabled early in the New Year. As you will be aware, we expect legislative competence over Assembly and Local elections to be devolved to the Assembly through the forthcoming Wales Bill.

With regard to ensuring that Local Authorities are aware of the importance and independence of the role of monitoring officers, the National Assembly approved the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) (Amendment) Regulations 2014 in June of last year. They provide a level of protection to the Monitoring Officer (and certain other senior posts) from unfair disciplinary processes. The Welsh Government has ensured that Local Authorities, including monitoring officers, were made aware of these regulations.

We have considered the statutory Guidance published on the Welsh Government website regarding managing pay arrangements for joint appointments. We have reviewed the Accounting disclosure requirements set out in the Accounts and Audit (Wales) Regulation Regulations and concluded there is no amendment required. The existing guidance makes it clear that authorities should include in Accounts the estimated annual salary of any joint appointments. The Guidance will be re-issued later this year by the Welsh Government, which will ensure Local Authorities are reminded of the requirements.

Since the Welsh Government's initial response to the PAC and in line with the commitment to increasing diversity in local government and across the public sector, a recruitment exercise for new members for the Independent Remuneration Panel for Wales has been conducted. As a result, I am pleased to report that the Panel membership will become 50% female from next January.

The Welsh Government published the Local Government Bill (mergers and Reform Bill) in draft on 24 November and I hope that the Committee has therefore had sight of this and the accompanying consultation paper.

Transparency of Senior Pay

The Welsh Government response to the Report's recommendations noted the call for the Welsh Government to play a wider role in establishing and monitoring policies relating to senior management pay. In response to these recommendations, the Minister for Public Services will shortly publish a set of high level principles and recommended reporting arrangements around the '*Transparency of Senior Remuneration in the Devolved Welsh Public Sector*'.

The transparency document is framed as "best practice" and outlines clear reporting standards. The principles address a number of the recommendations contained within the PAC report. They include provisions relating to the disclosure of remuneration committee information, talent management, salary levels and the production of annual pay policy statements and full annual remuneration reports all of which were recommended by the PAC.



The principles were discussed and agreed in full at the meeting of the Workforce Partnership Council on 8 October 2015. The Minister for Public Services wrote to Ministerial colleagues on 18 November requesting that the principles and requirements are cascaded to devolved public sector organisations within their portfolio, to bring this consistent standard to the attention of all sectors. Welsh Government officials are now arranging distribution of the document to the relevant parties in devolved public bodies, with an official written statement from the Minister for Public Services issuing the document to the devolved public sector scheduled for publication on 7 December. The document states that the Welsh Government will publish not only our own annual pay policy statement and full remuneration report, containing the information recommended by the PAC report and in the clear and accessible way it recommends, but will also include links to the statements and reports of the main register of devolved public bodies on our website.

In the initial response to the PAC, the Report's recognition that a "one size fits all" definition of a senior post is not necessary, was welcomed. This is reflected in the principles by seeking to implement an objective definition without over-prescribing what may constitute a "senior post". Examples are also provided of what could reasonably be considered a senior post. Devolved Welsh public sector bodies are required to interpret these examples and provide a definition of what constitutes a senior post in their organisation in their annual Pay Policy Statement.

References to a remuneration threshold are not included due to complexities across sectors. For example some workers in the Health sector might have found themselves in scope despite not holding a post which could be classified as "senior". Additionally, while the decision has been taken not to compile a glossary of terms at this time, the underlying aim of this PAC recommendation has we believe been addressed by requiring devolved Welsh public sector bodies to produce Pay Policy Statements in a transparent and clear fashion.

The initial response to the report explained, with reference to Recommendations 6 and 22, that we would like to explore further and return to the committee. During this work, it was noted that the conditions that may be attached to the funding for different devolved public bodies are not set out exhaustively in statute, but the general principles of public law provide that they may not stray too far from the purpose of the funding. It was therefore concluded that placing a condition of compliance with these additional requirements would be too far removed from the purpose and effect of the funding itself and could not reasonably be imposed as conditions attached to annual funding without the prospect of legal challenge.

The remaining recommendations relating to studies into best practice and pay mechanisms, providing training seminars, and collating information on senior pay across the Welsh public sector as part of embedding and evaluating the new arrangements, will be considered next.



I hope that the Committee will find this update useful. If you have any questions on any of the points raised, please do not hesitate to contact me again.

Yn,
Derek



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru
DYDDIAD	7 Rhagfyr 2015
GAN	Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Heddiw, cyhoeddwyd cyfres o egwyddorion ynglŷn â thryloywder cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus.

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/publications/transparency-of-senior-remuneration/?lang=cy>

Roedd 23 o argymhellion mewn adroddiad ar Dâl Uwch Reolwyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2014, a'r rheini'n canolbwyntio ar onestrwydd a thryloywder y datganiadau o gydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr. Fel yr amlinellwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion, rydym wedi creu cyfres gyffredin o egwyddorion ac argymhellion lefel uwch sy'n amlinellu ein disgwyliadau ynglŷn ag adrodd ar gydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn a'r trefniadau ar gyfer adrodd a argymhellir yn cael eu nodi yn "Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru". Rwyf wedi ysgrifennu at gydweithwyr yn y Cabinet i dynnu eu sylw at y safonau newydd hyn ac i ofyn iddynt eu rhaedru i gyrff datganoledig y sector cyhoeddus yn eu portffolios.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i'r egwyddor o bartneriaeth gymdeithasol a chydffargainio cenedlaethol a lleol, ac ni fydd yr egwyddorion a'r argymhellion rydym wedi eu datblygu mewn ymateb i'r argymhellion yn ceisio tanseilio hyn. Rydym yn credu y dylai materion ynghylch cydnabyddiaeth ariannol yn y sector cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn seiliedig ar egwyddorion sy'n berthnasol ar draws yr ystod o wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Ni fwriedir bod yr egwyddorion hyn yn ymyrryd â threfniadau bargeinio cyflogau presennol, ac nid ydynt yn ddatganiad o fwriad y Llywodraeth i osod y gyfradd gyflog ar gyfer cyrff datganoledig yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r egwyddorion hyn a'r trefniadau adrodd a argymhellir yn gam tuag at graffu'n well ar gydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, a byddant yn cael eu hadolygu'n gyson wrth i newidiadau ddigwydd o ran deddfwriaeth, polisïau a'r setliad datganoli.

TRYLOYWDER CYDNABYDDIAETH ARIANNOL UWCH REOLWYR YN Y SECTOR CYHOEDDUS DATGANOLEDIG YNG NGHYMRU

Y CYD-DESTUN

Barn Llywodraeth Cymru yw bod gwasanaethau cyhoeddus da a gwerth am arian i drethdalwyr yn hanfodol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn felly ei bod yn iawn i ystyriaethau yn ymwneud â chydabyddiaeth ariannol swyddi uwch fod yn dryloyw ac wedi eu seilio ar egwyddorion a ddefnyddir yn yr ystod gyfan o wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Bwriad y ddogfen hon yw nodi'r egwyddorion hynny. Byddwn yn parhau i adolygu'r ddogfen hon wrth i newidiadau mewn deddfwriaeth, polisïau a'r Setliad Datganoli esblygu.

Mae'r Setliad Datganoli a'r trefniadau cyfreithiol, rheoleiddiol a negodi gwahanol sy'n berthnasol ar draws yr ystod gyfan o wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn golygu bod tirlun tâl y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gymhleth. Nid bwriad y ddogfen hon yw torri ar draws strwythurau sydd eisoes yn bodoli neu sy'n cael eu datblygu ar gyfer trafodaethau tâl mewn sectorau gwasanaethau cyhoeddus penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn glynu at yr egwyddor o bartneriaeth gymdeithasol ac o fargeinio cenedlaethol a lleol ar y cyd, ac mae ganddi wahanol bwerau ar gyfer gwahanol rannau o'r tirlun sector cyhoeddus. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn iawn iddi nodi ei disgwyliadau gan gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru o ran gosod tâl a chyhoeddi Datganiadau Polisi Tâl blynyddol.

Mae'r ddogfen hon yn argymhell cyfres gyffredin o egwyddorion a safonau gofynnol y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru eu dilyn. Dylai gyrff cyhoeddus datganoledig barhau i geisio gweithredu yn unol â'r egwyddorion a'r safonau uchaf yn hyn o beth ac ni ddylent geisio defnyddio'r datganiad hwn i gefnogi unrhyw leihau mewn deddfwriaeth neu fecanweithiau cyfredol sy'n gosod gofynion sy'n union yr un fath neu'n uwch ar gyrff cyhoeddus datganoledig penodol.

EGWYDDORION

1. Cysondeb

Mae'n rhaid i'r gydnabyddiaeth ariannol fod yn gymesur â chyfrifoldeb a swyddogaeth. Gwerthuso swyddi yn effeithiol yw'r cam cyntaf tuag at hyn. Dylai fod gan gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru Ddatganiadau Polisi Tâl sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn cwmpasu'r ystod lawn o'u cyflogeion uniongyrchol, ac sy'n egluro unrhyw wahaniaeth yn y dull a gynigir ar gyfer gwahanol grwpiau neu rhwng y rhan fwyaf o gyflogeion a'r staff uwch ac yn esbonio pam mae'r gwahaniaeth hwn yn angenrheidiol.

Mae'r ddogfen hon yn argymhell model safonedig o drefniadau adrodd ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Bydd gweithredu trefniadau adrodd unffurf yn hwyluso'r prosesau gwneud penderfyniadau corfforaethol, a fydd o ganlyniad yn arwain at fwy o graffu ar wariant cyhoeddus ac yn y pen draw defnydd mwy effeithiol o gronfeydd cyhoeddus.

2. Tryloywder

Y strwythur llywodraethu priodol sy'n atebol am drefniadau tâl cyrff unigol, yn ddarostyngedig i ofynion cyfreithiol neu ariannol cyffredinol a osodir gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru. Dylai fod yn eglur i gyflogeion, y cyhoedd a'r bobl hynny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â thâl, pwy sydd â'r cyfrifoldeb. Dylai'r sail ar gyfer penderfyniadau a wnaed, a pha bryd y caniateir gwyradau oddi wrth bolisiau cyffredol, fod yn eglur i bawb yn gyfartal. Dylai gwybodaeth briodol fod ar gael i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau, y rhai sy'n craffu arnynt a'r rhai a effeithir ganddynt, er mwyn iddynt allu seilio eu penderfyniadau arni. Mae'n rhesymol bod y trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer swyddi uwch yn fwy tryloyw ac yn fwy agored i graffu arnynt nag ar gyfer y niferoedd mwy o swyddi lle y ceir llai o dâl.

3. Mynediad

Mae sicrhau bod penderfyniadau trefniadaethol sy'n ymwneud â chydabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gael yn rhwydd yn gam allweddol tuag at graffu effeithiol ar wariant cyhoeddus. Argymhellir felly bod yr holl gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn cyhoeddi'r wybodaeth y mae'r ddogfen hon yn mynnu ei bod ar gael, mewn modd eglur a thryloyw, ac mewn un man amlwg sy'n hawdd mynd ato ar eu gwefannau.

Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â chydabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ar gael mor rhwydd â phosibl, yn ogystal â chyhoeddi ei Datganiadau Polisi Tâl ac Adroddiadau Blynyddol ei hun, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi dolenni i'r tudalennau datgelu perthnasol ar y brif gofrestr o Gyrrff Cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ar ei gwefan.

TREFNIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER ADRODD

Nod y ddogfen hon yw sicrhau bod yr holl gyrff sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn cyhoeddi gwybodaeth benodol ynglŷn â chydabyddiaeth ariannol eu huwch staff mewn modd hygyrch a thryloyw.

Pan fo arferion cyfrifyddu presennol yn gosod gofynion ar gyrrff sector cyhoeddus datganoledig penodol yng Nghymru i gyhoeddi gwybodaeth mewn modd tebyg i'r hyn a amlinellir yn y ddogfen hon, bydd yr arferion presennol hynny yn cael

blaenoriaeth dros y ddogfen hon. Dylai'r cyrff cyhoeddus sy'n dilyn yr arferion hynny barhau i gydymffurfio â'u trefniadau presennol.

1. Datganiadau Polisi Tâl Blynyddol

Mae'r ddogfen hon yn argymhell bod yr holl gyrff sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn cyhoeddi Datganiad Polisi Tâl bob blwyddyn mewn man hygrych ac amlwg ar eu gwefannau. Dylai'r Datganiad Polisi Tâl hwn egluro polisïau'r corff cyhoeddus ei hun tuag at ystod o faterion sy'n ymwneud â thâl a chydabyddiaeth ariannol ei weithlu, yn enwedig tâl a chydabyddiaeth ariannol ei swyddi uwch a'r cyflogeion sy'n derbyn y tâl isaf.

Diben y Datganiad Polisi Tâl yw cynyddu atebolrwydd o ran taliadau i uwch gyflogeion yn y sector cyhoeddus trwy alluogi'r cyhoedd i graffu ar y trefniadau, a dylent nodi polisïau'r corff cyhoeddus ynglŷn â thâl a chydabyddiaeth ariannol ar gyfer swyddi uwch.

Dylai'r Datganiad Polisi Tâl nodi:

- a) y diffiniad o "swyddi uwch" y mae'r corff yn ei ddefnyddio at ddibenion y datganiad polisi tâl,
- b) y diffiniad o "gyflogeion sy'n derbyn y tâl isaf" y mae'r corff yn ei ddefnyddio at ddibenion y datganiad polisi tâl,
- c) rhesymau'r corff dros ddefnyddio'r diffiniadau hyn, a
- ch) y berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch a chydabyddiaeth ariannol y cyflogeion sy'n derbyn y tâl isaf.

Yn y ddogfen hon gallai "swyddi uwch", o ran corff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, olygu pennaeth gwasanaeth taledig y corff; ei swyddog monitro; prif swyddog statudol; prif swyddog anstatudol, dirprwy prif swyddog, cyfarwyddwr gweithredol, ac uwch reolwr sydd â chyfrifoldeb lefel bwrdd neu nad oes ganddo hynny, sy'n adrodd yn uniongyrchol i bennaeth y corff.

Dylai'r holl gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru gynnwys y wybodaeth ganlynol yn eu Datganiadau Polisi Tâl:

- a) tystiolaeth y gellir ei dangos o fforddiadwyedd a gwerth am arian,
- b) nifer y swyddi uwch yn y corff â phe cyn cydnabyddiaeth ariannol o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000,
- c) dull y corff o reoli talent fewnol,
- ch) dull y corff o ymdrin â thâl sy'n seiliedig ar berfformiad,
- d) dull y corff o ddarparu cymorth i staff sy'n derbyn tâl is,
- dd) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf a osodir gan y corff, a

e) y polisiâu diswyddo y mae'r corff yn eu gweithredu a sut, a dan ba amgylchiadau, y ceir amrywio'r rhain.

2. Adroddiadau Blynyddol

Dylai'r holl gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru gydymffurfio ag arferion cyfrifyddu cyfredol a chyhoeddi adroddiad llawn am gydnabyddiaeth ariannol bob blwyddyn. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn nodi'r wybodaeth ganlynol yn llawn ynglŷn â'r holl uwch swyddi ar ffurf sy'n rhwydd ei dehongli:

- a) cyflog,
- b) pensiwn,
- c) buddion mewn ffyrdd eraill a buddion di-dreth,
- ch) cyfansoddiad rhyw yr uwch dîm, a
- d) manylion pecynnau diswyddo sydd wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd, gan gynnwys achosion busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r trefniadau ymadael ac sy'n cynrychioli gwir werth am arian

Argymhellir bod yr holl gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn datgelu penderfyniadau eu pwyllgorau cydnabyddiaeth ariannol ynglŷn â chydabyddiaeth ariannol uwch reolwyr. Hefyd, dylai'r holl gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru greu a chyhoeddi Adroddiadau Tâl Cyfartal blynyddol.

Direct Line: 0300 062 8379
E-mail: Kathryn.chamberlain@wales.gsi.gov

Darren Millar AM
Chair
Public Accounts Committee

25 November 2015

Dear Mr Millar

Thank you for inviting us to attend Committee on the 10th November to talk about the work of HIW in the context of your review of health board governance.

We agreed to provide additional information on a number of specific points:

- a) The number of reports HIW received from Community Health Councils in the North Wales region regarding the 39 visits undertaken at BCUHB;
- b) Whether Ministerial correspondence in connection with the concerns raised over the Tawel Fan ward at Glan Clwyd Hospital was shared with HIW;
- c) The number of voluntary lay reviewers recently recruited by HIW;
- d) The expertise and skills of the members of the Advisory Board, and
- e) A breakdown, by months, of the number of reports that did not achieve the target publication date of three months maximum following inspection.

The information requested is attached below. This has taken a little while to produce as I thought it important to share our response to your first question with the Community Health Councils before sending to ensure that we had not overlooked any relevant correspondence.

Committee members covered some very wide and interesting ground during their questions, but it was clear that in some cases the information that they held was partial and out of date. You will recall from your role on the Health and Social Care Committee that I wrote to each member of that Committee when our Annual Report was published in July 2015. In that letter I offered to meet with Committee members, individually or collectively, if they wanted to explore the information presented in the Annual Report in more detail. I would be happy to make a similar offer to members of the Public Accounts Committee. Open committee sessions are useful but they do not necessarily provide the time and format in which members can fully explore the matters that concern them.

Finally I would like to repeat one aspect of what I said in Committee. Although we are located as a department of the Welsh Government, we are operationally independent. This means that any AM is able to raise issues directly with us and we would encourage them to do so. Some AMs already do this and we have had a number of meetings with AMs to discuss matters raised with them by the constituents.

Yours sincerely

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'K. Chamberlain'.

DR KATE CHAMBERLAIN
Chief Executive

a) *The number of reports HIW received from Community Health Councils in the North Wales region regarding the 39 visits undertaken at BCUHB;*

It is important to set this response in context. As I stated in Committee, the way in which we work with the Community Health Councils is developing. It will now be much easier to make progress following the appointment of a new Chief Executive and Chair with powers under the new CHC regulations to develop consistent standards to apply across each of the CHC areas.

We agreed an Operating Protocol with the Board of CHCs which was launched at their conference in March 2015. To support this we held a joint meeting in February 2015 of all CHC Chief Officers and HIW relationship managers to map out how the operating protocol would be implemented in practice. Prior to this, whilst some information was being shared between the two organisations it could be described as variable, informal and rather ad-hoc.

With regard to GP out-of-hours

It was during the joint meeting in February 2015 the NWCHC made broad reference, amongst other issues, to a number of occasions on which the out-of-hours service operated without doctors on shift. We sent a subsequent e-mail requesting further detail on this issue, and others, and were answered with a promise to send on further information relating to GPs the following day. The further information did not arrive as expected.

With hindsight we clearly should have chased this. I am sure that the CHC would also acknowledge that it was clearly an oversight on their part not to copy to us their original correspondence with the Chief Executive of BCUHB in February and not to send us any further documentation until after the report had appeared in the media on 12th May 2015.

With regard to reports on the 39 visits

During his questions Aled Roberts AM referred to a letter written by the CHC to the Chief Executive of BCUHB in June 2015 and asked about discussions between HIW and the Health Board before we visited in December 2014. I should clarify that the 'Learning from Trusted to Care' visits to older people's mental health wards in December 2014 were not undertaken by HIW, but by a team brought together by the Welsh Government. This was a mis-understanding on behalf of NWCHC which we pointed out to them when we also received a copy of the letter to which Mr Roberts refers.

Before the Welsh Government visits we shared with their team the information we held on services in North Wales. Following their visits they also shared their findings with us to help us focus our own inspection programme. I am unable to comment on the extent to which NWCHC shared their own reports and findings with the Welsh Government prior to the visits.

